CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 08/07/2025 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Gwynfor Jones | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Carys Roberts | Lleucu Jones | Catrin Roberts | Gito Williams | Gruffudd Griffiths |
| Pat Humphreys (Clerc) | | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Rhys Llewelyn, Wil Lake, Rhian Sanson a Iwan Evans

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Gareth Jones – eitem 17.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 10/06/2025
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gareth Jones    Eilio: Arfon Hughes
   **Materion yn codi o'r cofodion:**
   Cafwyd diweddariad ar eitem gorlifoedd carthffosiaeth i'r môr. Mae Dŵr Cymru wedi gwahodd yr aelodau i ymweld â safle trin carthoffisaeth Morfa Nefyn ac mae aelod lleol Morfa am adael i bawb wybod dyddiad ac amser yr ymweliad drwy ebost.
   Cadarnhaodd y clerc ei bod heb dderbyn unrhyw wybodaeth ychwaengol gan Gisda er ei bod wedi anfon ebost iddynt ar ôl cyfarfod mis dweithaf.

4. **Clybiau Ieuenctid Cymunedol –** cyflwyniad gan Sion Bryn
   Cafwyd cyflwyniad gan Sion Bryn a cafodd yr aelodau y cyfle i ofyn cwestiynnau ar y diwedd.
   Penderfyniad: gan nad oes arian gan CTN i ariannu hyn y flwyddyn yma gofynwyd i'r clerc gysylltu hefo Sion i egluro hyn ac i ofyn am y ffigyrau ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-2027 ddiwedd mis Awst er mwyn i ni fedru ei roi ar y gyllideb ar gyfer y praesept. Mae hi hefyd am ofyn os oes posibl i Andrew Owen ddod i gynnal sesiynnau i'r Ieuenctid yn y Ganolfan eto eleni am 12 wythnos fel y gwnaeth y llynedd.
   Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Gareth Jones

5. **Unrhyw Fater Brys**
   1. **Dyfynbrisiau gosod y 3 mainc –** Clerc
      Derbyniwyd dau ddyfynbris. Mae tair mainc angen eu gosod ac mae dyfynbris wedi eu derbyn am ddau opsiwn sef sylfaen concrid o dan y fainc i gyd a dau sylfaen concrid sgwar bach o dan y ddwy goes yn unig.
      Penderfyniad: derbyn y pris rhataf am sylfaen concrid o dan y meinciau i gyd.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Cynnig: Gwynfor Jones Eilio: Catrin Roberts

2. **Lwfansau aelodau – 2 ar ôl –** Clerc
   Mae pawb wedi llenwi'r ffurflenni yma i fewn ond am ddau aelod felly mae'r clerc yn gofyn eto iddynt eu llenwi i mewn a'u dychwelyd i'r clerc cyn gynted a phosibl.
3. **Cerrig beddi yn y mynwentydd –** Arfon Hughes
   Mae dau o'r aelodau wedi cyfarfod hefo arbennigwr ym mynwent Nefyn ac Edern i drafod cyflwr yr hen gerrig beddi a sut i'w gwneud yn saff. Gan nad oes neb wedi bod ym mynwent Fron na Penniel mae'r ddau aelod am fynd yno i weld os oes cerrig beddi yn yr un cyflwr yno hefyd ac adrodd yn ôl i'r arbennigwr. Mae'r arbennigwr am fynd i'r mynwentydd i wneud y gwaith. Mae grant i'w gael ar gyfer y gwaith yma.
4. **Trwsio meinciau llwybr Lleiniau –** Carys Roberts
   Mae dau fainc ar llwybr Lleiniau angen eu trwsio.
   Penderfyniad: gofyn i'r un contractwr a drwsiodd y fainc ar y Lôn Gam yn Nefyn am ddyfynbris a penderfynnu drwy ebost.
   Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Gwynfor Jones

6. **Aill wynebu llwybr o Lôn Pwll William i Lôn Penrallt –** Gareth Jones
   Er bod aelod lleol Morfa wedi gofyn am fwy o wybodaeth ar ôl cyfarfod mis diwethaf nid ydyw wedi ei dderbyn.

7. **Dyfynbrisiau arwyddion y mynwentydd –** Clerc
   Derbyniwyd tri dyfynbris gan dri gwmni gwahanol ond gan bod gwariant ychwanegol gan CTN ar hyn o bryd penderfynwyd gohirio gosod yr arwyddion tan y bydd y gwaith o ddiogelu'r hen gerrig beddi wedi ei wneud ac os y bydd arian grant ar ôl yna ei ddefnyddio i osod yr arwyddion yn y dair mynwent, os na fydd arian grant ar ôl yna fe fydd yn rhaid aros tan y flwyddyn ariannol nesaf.

8. **Gwresogyddion Siop Siarad –** Arfon Hughes
   Ei roi ar agenda mis Medi.

9. **Cais i symud pwyllgor mis Medi ymlaen wythnos o'r 9fed i'r 16eg –** Clerc
   Cais yw hwn gan y clerc i symud dyddiad cyfarfod mis Medi ymlaen wythnos sef o'r 9fed o Fedi i'r 16eg o Fedi gan fod ei mhab yn priodi ac mae hi yn awyddus i gymeryd amser i ffwrdd i help hefo'r trefniadau.
   Penderfyniad: Pasiwyd i ganiatau hyn.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Gareth Jones

10. **Llwybrau Edern –** Gito Williams

CYNGOR TREF NEFYN

## COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 08/07/2025 am 7yh

Yn dilyn y pwyllgor mis diwethaf fe aeth un o aelodau Edern o amgylch llwybrau Edern ac nid oes dim un o'r llwybrau yma yn bosibl eu cerdded oherwydd nad ydynt wedi cael eu torri ers cryn amser. Yr un yw'r stori am lwybrau Mynydd Nefyn, y llecynnau o gwmpas y meinciau â'r gweddill o'r llwybrau â'r llecynnau gwyrdd yn yr ardal i gyd. Mae CTN a Cyngor Gwynedd wedi ceisio cael y contractwr torri llwybrau i dorri'r llwybrau yn Nefyn, Morfa ac Edern ers misoedd ond nid ydyw wedi eu torri er ei fod yn gaddo gwneud. Mae'r llecynnau gwyrdd yn y tri pentref yn yr un cyflwr ac eto mae'n gaddo eu torri ond ddim yn gwneud.
Penderfyniad: mae diffyg torri'r llwybrau yn torri'r gytundeb sydd ganddo hefo CTN ac felly fe fydd yn rhaid dal y taliad i'r contractwr yn ôl y mis yma nes ei fod torri'r llwybrau i gyd yn Nefyn, Morfa ac Edern.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Gareth Jones

11. **Lladd gwair o amgylch y meinciau, cyflwr truenus y fainc ar y trwyn, diffyg torri llwybrau yn gyffredinnol a'r llwybr newydd yn traeth Nefyn –** Gruffydd Williams
Mae'r materion lladd gwair wedi cael eu trafod yn eitem rhif 10.
Cafwyd cais gan aelod lleol Nefyn i bawb gerdded yr hen lwybr yn traeth Nefyn er mwyn iddo gael ei warchod, mae rhai o'r aelodau am rannu'r neges yma ar eu cyfryngau cymdeithasol.
Mae'r fainc ar y trwyn mewn cyflwr truenus.
Penderfynwyd: gadael i'r fainc ar y trwyn gan nad oes modd ei thrwsio a pan fydd rhywun yn holi am le i osod mainc newydd yna defnyddio'r llecyn yma.

12. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    1. **Ebost Ieuan Wyn –** Llyn Celanedd
    Penderfyniad: cefnogi'r cais i ddefnyddio'r enw Cymraeg 'Llyn Celanedd' yn lle 'The Spinnies'.
    Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Catrin Roberts
    2. **Ebost Andrew Owen –** Digwyddiad Ieuenctid
    Penderfyniad: pasiwyd i roi caniatad i ddefnyddio Parc y Ddôl ar gyfer digwyddiad ieuenctid ar y 23ain o Orffennaf.
    Cynnig: Gareth Jones Eilio: Carys Roberts

13. **Ceisiadau Cynllunio**
**C25/0434/42/LL -** Llys Olwen, Lôn Tan Y Bryn, Morfa Nefyn - Proposed change of use classification from Guest House Holiday accommodation Use Class C1 Hotel to C2 Residential Institutions.
Penderfyniad: pawb i anfon ymateb drwy ebost i'r clerc cyn yr 17eg o Orffennaf.

14. **Ceisiadau Diweddarach**
**C25/0444/42/DT** - Gorwel, Glanrhyd Lôn Fawr, Ceidio - Gosod pwmp gwresogi aer ar ochr gogledd orllewinol yr eiddo.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

Cynnig: Carys Roberts  Eilio: Gruffudd Griffiths

**15. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1496.18 (taliad Bacs)
- Tyddyn Sachau – blodau Morfa - £57.99
- Cyngor Gwynedd - cytundeb gwastraff y Llyfrgell 2025-2026 - £271.00
- D M Parry – chweched taliad mynwent Nefyn, pedwerydd taliad mynwent Morfa Nefyn a gwaith ychwanegol - £1590.00
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £57.36
- Tyddyn Sachau – blodau Nefyn ac Edern - £141.40
- Alan Adams – taliad 4 cytundeb llwybrau a gwaith ychwanegol sef torri a clirio lleiniau gwyrdd Nefyn, Morfa ac Edern a torri gwellt y Llyfrgell - £1965.00
- Arwyddion y Ddraig – Sticeri 'Dim baw ci yn y biniau' i biniau mynwent Nefyn - £97.20
- Ysgol Edern – sied i Gymdeithas Rieni a Ffrindiau Ysgol Edern - £1427.65
- HMRC – PAYE mis 3 - £396.05
- E.On Next – trydan Llyfrgell - £142.26
- John Gwynfor Jones – agor bedd Aneurin Owen Charles Roberts - £130.00

Penderfyniad: Talu pob anfoneb ond am un Alan Adams.
Cynnig: Arfon Hughes  Eilio: Gareth Jones

**16. Taliadau wedi eu derbyn**

- Ifan Hughes – angladd Mary Catherine Evans - £780.00
- Ifan Hughes – angladd Vivienne Rees Jones a Geraint Elias Jones - £1930.00

**17. Cyflwyno rhodd i Rhys Tudur**

Cyflwynwyd rhodd i Rhys Tudur a diolchodd yr aelodau iddo am ei waith di-flino fel aelod a chyn-gadeirydd Cyngor Tref Nefyn.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com